

Elin Jones AC
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

4 Rhagfyr 2019

Annwyl Lywydd

Rheolau Sefydlog Drafft ar y weithdrefn ar gyfer Biliau Cydgrynhoi

Ymhellach i'm llythyr dyddiedig 11 Hydref 2019, rydym bellach wedi cael cyfle i ystyried y Rheol Sefydlog drafft ar y weithdrefn ar gyfer Biliau Cydgrynhoi yng nghyd-destun cynigion y Cwnsler Cyffredinol **ar gyfer cydgrynhoi a chodeiddio**, yn dilyn sesiwn dystiolaeth gydag ef ar 18 Tachwedd 2019. O ganlyniad, rydym am rannu gyda chi rai sylwadau ychwanegol sydd i'w hystyried, ynghyd â'n harsylwadau gwreiddiol.

Amserlennu'r gwaith o graffu ar Filiau Cydgrynhoi

Gwnaed cryn ymdrech a threuliyd cryn amser yn paratoi ar gyfer cydgrynhoi cyfraith cynllunio fel y mae'n gymwys yng Nghymru. Cymerodd Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr bedair blynedd i gynnal **adolygiad manwl o gyfraith cynllunio**, gan fod y dasg honno mor eang. Er i Lywodraeth Cymru roi **ymateb interim** ar yr Adroddiad ym mis Mai eleni, deallwn na fydd yn ymateb yn llawn i argymhellion Comisiwn y Gyfraith tan y flwyddyn newydd.

Credwn fod yr amser a gymerodd i Gomisiwn y Gyfraith gwblhau ei waith yn ategu ein barn y dylid rhoi cymaint o amser i'r pwyllgor cyfrifol ag y bo angen i graffu'n drylwyr ac yn fanwl ar unrhyw gynnig Bil Cydgrynhoi. Yn ein barn ni, mae'n hanfodol sicrhau y caniateir digon o amser ac adnoddau ar gyfer gwaith craffu, yn enwedig os bydd y pwyllgor cyfrifol yn cael y dasg a awgrymir yn Rheol Sefydlog 26C.17, sef ystyried pa mor briodol yw cwmpas y gwaith cydgrynhoi, a yw'r gyfraith bresennol berthnasol wedi'i chynnwys yn y Bil Cydgrynhoi, ac a yw'r deddfiadau hynny wedi'u cydgrynhoi yn gywir. At hynny, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym ei fod yn derbyn ei bod yn anodd disgrifio'r amgylchiadau lle y gallai fod angen cydgrynhoi deddfwriaeth ar frys, ac rydym yn cytuno.

Biliau Cydgrynhoi ochr yn ochr

Yn fy llythyr blaenorol, tynnais sylw at ein barn gychwynnol ar y cynnig i gynnwys darpariaethau sy'n ganlyniad i brif bwrpas cydgrynhoi gael eu cynnwys mewn ail Fil ar wahân. Yn ystod ein sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar 18 Tachwedd,



gwnaethom ofyn iddo am ei farn ar sut y byddai cydgrynhoi mewn dwy ran yn gweithio'n ymarferol. Er ei fod yn cydnabod nad oedd y cynnig "yn un hollol glir", roedd y Cwnsler Cyffredinol yn gadarn ei farn na fyddai'n briodol i un Bil basio pe na bai'r llall yn gwneud hynny. Er na allwn weld dim rhwystr gweithdrefnol amlwg yn y Rheolau Sefydlog drafft i'r cysyniad o sicrhau cydgrynhoi mewn maes drwy i ddau Fil fynd ymlaen yn gyfochrog, rydym yn ymwybodol fod y dull hwn yn arloesol. Am y rheswm hwnnw rydym yn awgrymu y dylid rhoi rhagor o ystyriaeth, fanwl, i'r cynnig hwn cyn i'r Rheolau Sefydlog gael eu llunio'n derfynol.

Canllawiau

Bydd y canllawiau a fydd yn cyd-fynd â'r Rheolau Sefydlog newydd ar gyfer gweithdrefn Bil Cydgrynhoi yn werthfawr ar gyfer Aelodau a rhanddeiliaid, er mwyn esbonio'r broses yn llawn mewn ffordd agored a thryloyw o ran agwedd anghyfarwydd ond pwysig ar ddeddfu. Yn fy llythyr ar 11 Hydref, tynnais sylw at nifer o faterion a amlygwyd gan y canllawiau drafft y credwn sydd angen rhagor o sylw, a manteisiaf ar y cyfle hwn i ailadrodd y sylwadau hynny.

Adolygu'r Rheolau Sefydlog

Mae bwrw ati â'r nod o gydgrynhoi cyfraith Cymru yn dasg sylweddol. Rydym yn cydnabod sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol y bydd proses o ddysgu yn nhymor nesaf y Cynulliad wrth i'r Biliau Cydgrynhoi cyntaf gael eu cyflwyno ar gyfer gwaith craffu. Am y rheswm hwnnw, rydym yn cytuno â'r Cwnsler Cyffredinol y dylid cynnal adolygiad o'r weithdrefn ar gyfer Biliau Cydgrynhoi ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar y Bil Cydgrynhoi cyntaf, er mwyn sicrhau bod y Rheolau Sefydlog a'r gweithdrefnau yn fwy cyffredinol, yn addas at y diben a fwriadwyd.

Materion eraill

O ran materion eraill a godwyd gan y Cwnsler Cyffredinol, gan gynnwys amddiffyn strwythur cyfraith Cymru a'r posibilrwydd y bydd prosesau newydd ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth, rydym am dynnu eich sylw at y [trawsgrifiad o'n cyfarfod ar 18 Tachwedd](#), os bydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried y materion hyn yn y dyfodol agos.

Yn gywir



Mick Antoniw AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn y Cymraeg a'r Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

